# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Adroddiad a darpariaeth fachlud*

## 21 Adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon E+W

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod 5 mlynedd, osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Wrth lunio’r adroddiad rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r adroddiad cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

(4) Yn is-adran (1), mae i “y cyfnod 5 mlynedd” yr ystyr a roddir yn adran 22(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 21 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

## 22 Cyfnod para darpariaethau’r isafbris E+W

(1) Mae darpariaethau’r isafbris wedi eu diddymu gydag effaith ar ôl i’r cyfnod 6 mlynedd ddod i ben, oni bai y gwneir rheoliadau o dan is-adran (2) sy’n darparu fel arall.

(2) Caiff rheoliadau, ar ôl diwedd y cyfnod 5 mlynedd ond cyn diwedd y cyfnod 6 mlynedd, ddarparu nad yw darpariaethau’r isafbris wedi eu diddymu, er gwaethaf is-adran (1).

(3) Caiff rheoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth (gan gynnwys darpariaeth sy'n addasu unrhyw ddeddfiad) sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i ddiddymu, yn rhinwedd is-adran (1), ddarpariaethau'r isafbris.

(4) Yn yr adran hon—

mae "addasu" ("*modifying*"), mewn perthynas â deddfiad, yn cynnwys diwygio, diddymu a dirymu;

ystyr "y cyfnod 5 mlynedd" ("*the 5 year period*") yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 2 i rym;

ystyr "y cyfnod 6 mlynedd" ("*the 6 year period*") yw'r cyfnod o 6 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 2 i rym;

ystyr "darpariaethau'r isafbris" ("*minimum pricing provisions*") yw—

(a) y Ddeddf hon (ac eithrio is-adran (3) a'r is-adran hon, ac at ddibenion gwneud rheoliadau o dan is-adran (3), adrannau 26(1), (2) a 27), a

(b) paragraff 2A o Atodlen 4 i Ddeddf 2003.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I4** A. 22 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Croes Bennawd: Adroddiad a darpariaeth fachlud.